**Mater y Mis: Ionawr**
Ymgynghori ar y Calendr Ysgol — amlinelliad o'r sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Gwybodaeth i'r hwylusydd**

Mae mater y mis yma yn canolbwyntio ar gynigion Llywodraeth Cymru i newid dyddiadau'r tymhorau ysgol.

Bydd ein swyddfa yn ymateb i hyn ac fe hoffen ni gynnwys lleisiau plant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n eu cefnogi yn ein hymateb i Lywodraeth Cymru.

| Gweithgaredd | Gwahaniaethu sy'n cefnogi dysgwyr PMLD | Cefnogi dysgwyr mewn gweithgaredd gwaith grŵp | Adnoddau ychwanegol / gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|
| Cychwynnwch y sesiwn trwy atgoffa'r plant am eu canllaw Lle Diogel. | Defnyddiwch awgrym gweledol am y canllaw lle diogel i atgoffa'r plant.<br><br>Cymerwch amser i fynd yn ôl dros y prif bwyntiau. | Defnyddiwch awgrym gweledol o'r canllaw lle diogel i atgoffa'r plant.<br><br>Cymerwch amser i fynd yn ôl dros y prif bwyntiau. | Os nad ydych chi wedi creu un eto, mae gennym ni ganllaw ar gyfer creu lle diogel yma. |
| Dangoswch y fideo yma i'r plant i ddechrau'r sesiwn. | **Ochr yn ochr â'r fideo, gallech chi ddefnyddio'r ffeithiau yma:**<br><br>"Dyma Rocio.<br>Mae gan Rocio swydd bwysig. | **Ochr yn ochr â'r fideo, gallech chi ddefnyddio'r ffeithiau yma:**<br><br>"Dyma Rocio.<br>Mae gan Rocio swydd bwysig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ei gwaith hi yw gwneud yn siŵr bod holl blant Cymru yn tyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.<br><br>Mae Rocio eisiau gwybod eich barn am ddyddiadau'r gwyliau ysgol"<br><br>Rhannwch y Stori Gymdeithasol am Rocio.<br><br>**Sbardunau synhwyraidd:**<br>Arogl fanila, yn cysylltu â gwreiddiau Rocio yn Chile.<br><br>Traed mewn tywod neu seiniau'r traeth/seiniau cyfarwydd adeg gwyliau (efallai bydd gan y plant gân gwyliau). Mae cysylltiad rhwng hyn ag Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. | Ei gwaith hi yw gwneud yn siŵr bod holl blant Cymru yn tyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.<br><br>Mae Rocio eisiau gwybod eich barn am ddyddiadau'r gwyliau ysgol"<br><br>Rhannwch y Stori Gymdeithasol am Rocio. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnal trafodaeth - Gofynnwch i'r bobl ifanc rannu eu barn a chydweithio i greu rhestr o hoff a chas bethau.<br><br>**Syniadau ar gyfer y drafodaeth:** Gallech chi roi cynnig ar y syniadau canlynol i gefnogi'r drafodaeth.<br><br>**Defnyddiwch yr holiadur yma i rannu barn plant a phobl ifanc** | *"Mae Rocio eisiau gwybod beth rydych chi'n hoffi a beth dydych chi ddim yn hoffi am egwyl hir y gwyliau haf."*<br><br>*Dangoswch y symbol ar gyfer hoffi a pheidio â hoffi.*<br><br>*Defnyddiwch y widgits i helpu yn y trafodaethau gyda'r disgyblion.* | *"Mae Rocio eisiau gwybod beth rydych chi'n hoffi a beth dydych chi ddim yn hoffi am egwyl hir y gwyliau haf."*<br><br>*Dangoswch y symbol ar gyfer hoffi a pheidio â hoffi.*<br><br>Defnyddiwch y cwestiwn sy'n cael ei gefnogi gan symbolau.<br><br>Darllenwch hyn i'r grŵp.<br><br>Gofynnwch i'r grŵp wneud penderfyniad, gallai hynny fod trwy godi llaw, symud yn agos at yr ateb maen nhw'n ei ffafrio, neu ddefnyddio'r symbolau i gefnogi eu syniadau. | *Sylwch: Mae yna flwch yn yr arolwg i chi ychwanegu unrhyw sylwadau fel oedolyn sy'n gweithio gyda phlant.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennwch y sesiwn trwy atgoffa'r disgyblion y byddwn ni'n rhoi adborth ar ffurf diweddariad ddechrau mis nesa. | Defnyddiwch rywbeth cyfarwydd i gloi'r sesiwn. Gallai hynny fod yn weithgaredd neu'n gân. | Defnyddiwch rywbeth cyfarwydd i gloi'r sesiwn. Gallai hynny fod yn weithgaredd neu'n gân. | Efallai byddwch chi am atgoffa'r disgyblion am eu Lle Diogel a'u hatgoffa pwy gallan nhw siarad â nhw yn yr ysgol os byddan nhw'n teimlo'n bryderus. |

**LINC I'R YMGYNGHORIAD LLAWN**

Rydyn ni hefyd am annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Llywodraeth.

Cewch hyd i'r ymgynghoriad (sy'n cau ar 13/02/24) a dogfennau darllen hwylus yma.

Bydd y lincs yma yn galluogi pobl ifanc i ysytyried syniadau y Llywodraeth yn llawn ac i ymateb yn uniongyrchol iddynt:

- gov.wales/schoolyear
- llyw.cymru/flwyddynysgol